# Prosiect: Gweithdai Zine




Gan ddechrau yn ystod Mis Balchder 2024, cynhaliwyd tri **gweithdy crefft** yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy, lle gallai'r cyhoedd ddod draw i ddysgu am hanes 'zines' (cylchgronau a hunan-gyhoeddir), yn ogystal â chreu rhai eu hunain. Dechreuwyd pob gweithdy â chyflwyniad byr i'r cysyniad o zines, gan gynnwys eu poblogrwydd o fewn y gymuned LHDTC+ a'u cysylltiad â hanes y gymuned hon. Cynhaliwyd y sesiynau gan yr artist lleol a'r cyhoeddwr zines, Victor Langdon-Lewis.

Roedd y gweithdai hyn wedi'u hanelu at oedolion a phobl yn eu harddegau hwyr, ac roedd pawb wedi mwynhau'r sesiynau'n fawr. Roedd ganddynt ddiddordeb mewn dysgu am zines ac ymgysylltu â gweithgareddau creadigol, a nododd y cyfranogwyr eu bod yn falch o'r pethau yr oeddent wedi'u gwneud ac yn hapus eu bod wedi cymryd rhan. Roedd y gweithdai hyn yn hygyrch ac yn cynnwys cyfranogwyr anabl.

"Roedd yn wych cael cyfle i gynnal y sesiynau hyn a rhannu byd hyfryd zines â chynulleidfa newydd. Roeddwn yn hynod o falch o fedru cysylltu â'r gymuned LHDTC+ a chynnal gweithgareddau hwyliog a oedd yn berthnasol i genedlaethau blaenorol o unigolion hoyw a chreadigol." - **Victor Langdon-Lewis**




**Cynhaliwyd y gweithdai hyn yn ystod Mis Balchder a Haf 2024, gyda chyfraniadau gan Wasanaeth Amgueddfeydd Conwy, Archifau Conwy, a'r artist Victor Langdon-Lewis.**

CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY CULTURE CENTRE

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL